

Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru

Cofnodion cyfarfod 23 Mai 2019 yng Ngholeg y Bedyddwyr, Heol Richmond, Caerdydd

Yn bresennol: Rheinallt Thomas (Llywydd); Peter Dewi Richards (Cyn Lywydd); Gethin Rhys; Peredur Owen Gruffydd; Martin Spain (Trysorydd); Vaughan Salisbury; Gareth Morgan Jones; Irfon Roberts; Aled Davies; Alun Tudur; Sally Thomas; Chris Gilham; Catrin Parry (Cyfieithydd); Helen Jones (Ysgrifennydd).

Derbyniwyd Ymddiheuriadau: George Baker; Tim Daniel (BUGB); Aled Jones; Ian Morris; Judith Morris; Hugh Osgood; Dyfrig Rees; Nerys Siddall; Eirian Wyn.

1. Croeso, Cydymdeimlad ac Ymddiheuriadau: Croesawodd y Llywydd bawb i'r cyfarfod. Nodwyd gyda thristwch ymddiheuriad Parch Ian Morris a chydymdeimlwyd ag ef oherwydd marwolaeth ei fam. Nodwyd ymddiheuriad aelod newydd i'r Cyngor sef Tim Daniel, cynrychiolydd BUGB.

Soniodd y Llywydd am y Fforwm Cymunedau Ffydd a gynhaliwyd ar 22 Mai yn y Senedd. Diolchodd am y cyd- ddealltwriaeth rhyng-ffydd oedd yn datblygu.

Derbyniwyd neges oddi wrth Vivian Williams, Llanelli trwy law, Parch Gareth Morgan Jones yn dymuno'n dda i'r cyfarfod. Mynegwyd ein gwerthfawrogiad ohono a'i waith gyda Chyngor Eglwysi Rhyddion a changen y De'n arbennig. Cofiwn amdano yn ein gweddïau.

Croesawyd Catrin Parry i'r cyfarfod i gyfieithu'n lle Steffan Wiliam.

2. Defosiwn: Arweiniwyd ni'n y defosiwn gan Parch Aled Davies oedd yn dathlu 30 mlynedd fel Swyddog gyda'r Ysgolion Sul yng Nghymru. Roedd ei neges o Eiseia 54 "Helaetha maint dy babell ... sicrha'r hoelion" – neges bwrpasol i'r 21 ganrif. Nododd y dylem i gyd feddwl yn ehangach am y posibiladau o helaethu'r Deyrnas a bod lle i bawb yn ein pabell ni.

3. Cofnodion 23 Tachwedd 2018: i. Derbyniwyd y cofnodion o gyfarfod 23 Tachwedd. Cynigiwyd gan Peter Dewi Richards ac eiliwyd gan Aled Davies. Cytunodd pawb a diolchwyd i Helen am eu cadw.

ii. Hyfforddiant Gweinidogaethol – Nodwyd bod Adroddiad Bryn Williams wedi ei rannu.

iii. Bwrdd Dilysu – Cafodd y Llywydd 2 sgwrs gan Archesgob Cymru a soniodd ei fod yn ddirgelwch iddo nad oeddent bellach yn bodoli. Gofynnodd i Parch Ainsleigh Griffiths i edrych i fewn i'r mater. Nododd bod hwn yn gyfle gwych ac yn fenter ymarferol o gael cydweithrediad dros yr enwadau i gyd. Gobeithir bydd y cydweithio a'r cyd-drefnu yn ddarpariaeth i bawb. O sefydliad Padarn Sant, Parch Manon Ceridwen James fydd y cysylltiad yn y dyfodol. Trefnwyd cyfarfod gyda'r Coleg Cenedlaethol heddiw i drafod hyfforddiant ond dim ond tri enwad oedd yn bresennol yno.

iv. Dogfen Gweinidogaeth Bro – Dim i'w adrodd. **v. Wefan** – gweler item 6.

4. Materion yn codi o'r cofnodion na sydd ar yr Agenda: Caplaniaid Byrddau Iechyd. Nodwyd Atodiad Gethin Rhys. Soniwyd bod anhawsterau'n codi gydag ymateb i hysbysebion Caplaniaid drwy NHS Jobs. Swyddi Caplaniaid Saesneg yn unig a geir ar y linc hwnnw. Nid oes swyddi Cymraeg arno. Nid yw'n bosib ymgeisio am swyddi Caplaniaid Cymraeg ond trwy edrych ar hysbysebion Cymraeg. Er byddai'r 4 Tudalen yn hwylus fel cyfrwng hysbysebu swyddi mae'r dyddiad cau yn gallu bod yn dynn iawn. Mynegodd yr hoffai eglwysi croenddu fod yn rhan o'r gaplaniaeth ac mewn trefi mawr/ dinasoedd dylai hyn fod yn ddarpariaeth ymarferol ac hanfodol. Nodwyd mai'r man cychwyn fyddai gwirfoddoli cyn derbyn hyfforddiant. Mae pryder yn codi pan fo gweinidogion llawn amser yn gwirfoddoli achos gwêl y Byrddau Iechyd hyn yn fodd i arbed arian rhag dalu Caplaniaid.

Cynllunio Gethin Rhys gyfarfod ag Ian Stevenson o Fwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg sy'n cadeirio'r grŵp "Spirituality, Health and Well-being" yn y dyfodol agos yn y gobaith i drefnu grŵp trwy Cytun fel bod cynrychiolaeth o'r eglwysi yno.

Roedd ymateb Bwrdd Iechyd Powys yn negyddol iawn. Does dim Caplan yn cael ei gyflogi gan y Bwrdd Iechyd o gwbl. Dengys hyn ddiffyg dealltwriaeth o reidrwydd cyfreithiol i gyflogi Caplan.

Parhaodd y drafodaeth gyda'r sôn bod Ysbyty Treforus wedi colli Caplan. Mae dwy wedi ei hapwyntio ac yn mynd trwy gyfnod o hyfforddi. Yn anffodus dydyn nhw ddim wedi cael eu hordeinio ac nid ydynt yn siarad Cymraeg chwaith. Gofid yn sgîl hyn yw bod cyfartaledd uchel o gleifion yr Ysbyty yn dod o Orllewin Cymru a Chymraeg yn iaith gyntaf i ganran uchel ohonynt. Soniwyd bod angen mwy o hyfforddiant ar Gaplaniaid i ddelio gyda gofal diwedd oes ac ymestyn y syniad o "Byw Nawr" ("Dying Matters UK") allan yn y Gymuned. Diolchwyd i Gethin Rhys am ei waith a bydd yn parhau gyda'r trafodaethau i'r dyfodol.

Pwynt gweithredu: Gofynnwyd i Gethin Rhys ymateb yn swyddogol i Bwrdd Iechyd Powys ar ran CERhC a dangos ein siom am eu amharodrwydd i gyflogi Caplan ac i ddwyn eu sylw at eu cyfrifoldeb cyfreithiol ynghylch y mater hwn.

5. Comisiwn yr Eglwys Cyfamodol yng Nghymru. (Peredur Owen Gruffydd) Nodwyd Atodiad a aeth allan gyda'r Agenda. Mae'r papur wedi cael ei ddiweddarau gan y pump enwad sy'n rhan o'r Eglwysi Cyfamodol. Y cam nesaf yw creu taflen i rannu gwybodaeth a fyddai'n mapio capeli/eglwysi sy'n rhan o'r Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru gydag Offeiriaid/Gweinidogion fel bod pobl yn gallu gweld lle mae ardaloedd o gydweithio yn barod. Byddai hyn yn sylfaen i'r dyfodol mewn manau arall.

Nodwyd bod cydweithrediad yn digwydd ym Mhort Talbot lle gall gweinidog o un traddodiad gael hyfforddiant a theimlo y medr ddeall traddodiad arall ac o'r herwydd yn hyderus i weinyddu gwasanaeth/rhedeg eglwys o draddodiad gwahanol. Mynegwyd bod hyn yn sgîl pwysig i'r dyfodol ac yn broses sy angen deall gan wahanol enwadau. Awgrymwyd yr angen i weinidogion bro gael cyfarfodydd i helpu ei gilydd i gyd-ddeall a chynorthwyo ei gilydd i gydweithio. Rhoddwyd esiampl bod panel diogelwch plant yn strwythur sy bellach yn dangos cydweithredu er bod hynny cymryd amser.

Gofynnwyd a fyddai angen dogfen cyfreithiol i weithredu'r cydweithio oherwydd byddai hyn yn gostus a thrafferthus. Mynegwyd bod "Sharing Church Buildings Act 1969" yn ddogfen cyfreithiol sy'n dangos strwythur eciwmenaidd a gallai eglwysi i uno yng ngoleuni hyn. Problem pennaf yr eglwysi ydy cael yr aelodau o fewn yr eglwysi unigol i ymuno gyda'i gilydd.

6. Adroddiad y Llywydd. (Rheinallt Thomas) Atodwyd dogfen gyda'r Agenda. Bu hon yn wythnos brysur i'r Llywydd. Tynnodd ein sylw at dri cyfarfod. **1.** Nos Sul – dathliadau Cyngor Sikh Cymru – 200 o bobl yno. Gwasanaeth 3½ awr. **2.** Nos Lun – Llywyddodd Ddarlith goffa Gethin Abraham – Williams yn y Senedd gyda'r Parchedig Ganon Aled Edwards yn sôn am "Ffydd, Datganoli a Gwleidyddiaeth fyd-eang". Darlith gynhwysol a oedd i ddathlu 20 penblwydd bodolaeth y Senedd. Cafwyd cyfarchion gan Elin Jones a Jane Hutt. Mae Peredur wedi ei recordio i osod ar Wefan Cytun. **3.** Dydd Mercher – cyfarfu Fforwm Cymunedau Ffydd. Llywyddwyd gan Mark Drakeford, Prif Weinidog yn Adeilad y Pierhead. Thema oedd "Cynhwysedd – Inclusiveness" a thrafodwyd nifer o bynciau. Roedd Mark Drakeford wedi cynnig 1½ awr i'r cyfarfodydd hyn yn y dyfodol. **4.** Nododd y Llywydd nad oedd wedi gallu mynd i gyfarfod ffurfiol ugain mlynedd Datganoli ac na fedrai anfon dirprwy.

ii. Gwefan – Nodwyd o Adroddiad y Llywydd y cynnwys sy ar Wefan CERhC ar hyn o bryd. Diolchwyd i Peredur am ei waith o ddiweddarau. Bydd y dogfennau hyn yn gyfrwng record o'n digwyddiadau a'n trafodaethau i'r dyfodol. Llongyfarchwyd bod gwybodaeth ar y Wefan. Nodwyd anhawster i fynd at y Wefan. Mynegwyd bod rhaid dilyn cyfarfwyddiadau cywir i fynd at y safle We a'r ffordd hawsaf yw mynd i safle Cytun, edrych am Partneriaid a chwilio am CERhC. Awgrymwyd y byddai'n werth dileu yr hen Cashe os yw yn bodoli ar gyfrifiadur unigolion.

Llongyfarchwyd y Llywydd am anfon neges yn enw CERhC at Gyngor Mwslemaidd Cymru yn cydymdeimlo â hwy wedi'r drychineb fawr yn Seland Newydd ym mis Mawrth. Mynegwyd bod hon yn weithred arwyddocaol i godi ymwybyddiaeth barotach i groesi pontydd gyda chredinwyr o grefyddau arall drwy gysylltu fel hyn.

Nodwyd bod Taith Gerdded Dewi Sant wedi cymryd lle ar 1 Mawrth – mae hon yn daith Rhyng-ffydd ac yn bwysig i roi cefnogaeth cyhoeddus iddi. Ym mis Tachwedd bydd Taith Tystio Rhyng-ffydd.

7. Adroddiad Grŵp Eglwysi Rhydd Llundain: Ni chafwyd adroddiad a doedd neb yn bresennol i'w draddodi.

8. Adroddiad Cytun (Parch Gethin Rhys) Diolchwyd bod Bwletin Polisi Cytun yn cael ei anfon at yr aelodau ac fe fydd un arall cyn hir. Bu gwefan Cytun yn cynghori gyda safbwyntiau ynglŷn â'r Etholiad Ewropeaidd oedd yn cael ei gynnal ar yr un diwrnod â chyfarfod y Cyngor. Diolchwyd am y gwaith.

ii. Banciau/ swyddfeydd Post – diweddariad. Cynhaliwyd cyfarfod buddiol ar fore Iau 23 Mai o flaen cyfarfod y Cyngor yng Ngholeg y Bedyddwyr. Cyfarfu Gethin Rhys, Rheinallt Thomas, Chris Gilham a Victoria Ashleigh (Eglwys yng Nghymru) â Stuart Taylor, Rheolwr Materion Allanol y Swyddfa Bost ar gyfer Cymru a De Orllewin Lloegr. Bydd gwybodaeth yn cael ei anfon allan drwy Gethin o swyddfa Cytun. Nodwyd rhai ffeithiau – **i.** Mae nifer Swyddfeydd Post yn cynyddu. **ii.** Mae'r Swyddfa Bost yn elwa achos bod banciau'n cau. **iii.** Mae partneriaethau yn codi drwy agor Swyddfa Bost mewn siop/ garej/ hyd yn oed Ffestri capeli/ Neuadd eglwysi. Mae un busnes yn atgyfnerthu'r llall achos bod cwsmeriaid yn prynu nwyddau yn yr adeilad. **iv.** Dengys arolwg ddiweddar fod 40% o'r boblogaeth yn gwybod ei bod yn bosibl i gael gwasanaeth banc drwy ddefnyddio Swyddfa Bost, golyga hyn nad oes rhaid teithio i gangen arall o'r un banc i gael gwasanaeth. **v.** Mae'r Swyddfa Bost fel cwmni yn annog eu his-bostfeistri i siarad/ dysgu Cymraeg ac yn fodlon talu am wersi. Mae polisi dwyieithrwydd y Swyddfa Bost ar y blaen o'i gymharu â banciau traddodiadol. **vi.** Annogir cymunedau i ddefnyddio'r gwasanaeth neu byddan nhw'n ei golli. **vii.** Gallai cyfrif capel/eglwys dalu arian mewn i'w cyfrif banc drwy'r swyddfa bost ond byddai rhaid iddyn nhw gael caniatad y banc lle cedwir y cyfrif i wneud hynny. **viii.** Mae angen defnyddwyr i gofio mai cwsmer y banc ac nid y Swyddfa Bost ydynt.

Diolchodd Stuart Taylor i'r Cyngor am ddod â chwynion, problemau atynt ac argymhellodd fod unigolion/ cymunedau sy'n cwyno i gysylltu gydag ef, yn enwedig rhai gyda phroblemau penodol lleol. Dywedodd fod 98% o wasanaeth y post yn fusnes preifat. Nododd bod cynnydd ym mhrynant Talebau Post (Postal Orders) er bod rhaid talu amdanynt. Dim ond yn y Swyddfa Bost gellir prynu rhain. Soniodd bod y banciau yn colli busnes ac yn cau yn rhannol achos nad ydynt yn hoffi derbyn sieciau ond bod y Swyddfa Bost yn cynnig gwasanaeth i'r cyhoedd. Mae pob banc yn gorfod rhoi gwasanaeth drwy'r Swyddfa Bost ac mae'r banc yn gorfod talu am y gwasanaeth achos yn gyfreithiol dylent gynnig y gwasanaeth. Dydy cyfrif banc ddim yn gyfrif Swyddfa Bost. Gellid agor cyfrif banc syml yn y Swyddfa Bost er mwyn talu i fewn ac allan.

iii. Enwebiadau CYSAGau Diolchodd Gethin am awgrymiadau enwebiadau posibl.

1. Cyngor Caerffili - Cadarnhawyd Michael Gray – Methodistiaid. Cytunodd CERhC yr enwebiad yn ffurfiol.
2. Sir Gaerfyrddin – 1 enwebiad i'w lenwi - lle gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru oedd hwn a mater i'r Cyngor Sir oedd i ganiatau'r enwebiad roedd yr Henaduriaeth wedi cymeradwyo.
3. Powys - Cafwyd enwebiad ond roedd y person ar ei wyliau. Heb gadarnhâd ar ddydd y cyfarfod.
4. Mynwy – Roedd y Cyngor Sir wedi derbyn unigolyn i lenwi'r lle gwag.
5. Casnewydd – Roedd y lle wedi ei lenwi cyn y cyfarfod.

iv. Cwricwlwm Newydd Addysg i Ysgolion Cymru (gweler papurau a anfonwyd erbyn y cyfarfod) Anfonwyd ymateb cychwynol. Nododd Gethin bod angen clywed lleisiau eglwysi unigol a Chyngor Eglwysi Rhyddion fel corff yn narpariaeth meysydd llafur y Cwricwlwm newydd. Roedd anghydfod wedi codi am enw'r Maes Llafur Cytun (Cytunedig).

Digwyddiadau arall (Peredur Owen Gruffydd): Roedd Peredur wedi paratoi at Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd. Gobeithiai byddai pabell yr eglwysi'n hwyl gan fydd gemau cyfrifiadurol yno i ddiddanu. Bydd Cymorth Cristnogol yn rhannu'r babell ac fe fydd gyda nhw "Ystafell Ddianc." Bydd lleoliad y Babell yn yr "Oval Basin". Cynhelir Oedfa'r Bore Sul am 9.30 yn y Man Coral - rhwng yr Eglwys Norwydd a'r Senedd. Grŵp "Digon" o Ysgol Plasmawr fydd yn gyfrifol am yr Oedfa.

Mae Peredur yn brysur baratoi at Sioe Frenhinol Amaethyddol Cymru yn Llanellwedd, mis Gorffennaf a'r Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst ym mis Awst. Penodwyd criw bach i drefnu'r Oedfa yno – a fydd yn un gwbl awyr agored. Os fydd yn bwrw glaw bydd darpariaeth yn cael ei drefnu dan do yn y Lle Bwyd. Oedfa deuluol fydd hon a thocynnau i'w threfnu. Erbyn Eisteddfod 2020 yn Nhregaron gobeithir bydd Oedfa'r Bore ar lwyfan y Brifwyl.

9. Adroddiad Addysg (Vaughan Salisbury) (Atodwyd y papurau perthnasol cyn y cyfarfod)

Adroddiad Materion Addysg – Nododd Vaughan Salisbury rai pwyntiau o'r Adroddiad.

(3) Mae Academi Cenedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol wedi ei sefydlu. Rhaglen yw yn cefnogi ac yn cynghori datblygiad arweinyddiaeth a chomisiynu darpariaeth lle mae bylchau ond nid yw'n cynnig hyfforddiant. Bydd y rhaglen yn weithredol o Medi 2019.

(4) Bellach mae elfennau ym maes addysg yn cael ei ddatganoli i Adran Addysg Llywodraeth Cymru gan gynnwys Cyflog ac Amodau Gwaith o fis Medi ymlaen.

(5) Dogfen Ymgynghorol Llywodraeth Cymru, Cenhadaeth ein Cenedl – Aeth Adroddiadau at y Llywodraeth mis Mawrth yn ymwneud â deddfwriaeth Cenedlaethol. Yn yr atodiad a dderbyniwyd gan y Cyngor gwelwyd ymatebion Vaughan ar ran CERhC. Mynegodd y Llywydd ei ddiolch iddo ar ran y Cyngor. Dywedodd bod ymateb y Cyngor yn bwysig ac hefyd ymateb enwadau unigol.

Dogfen Ymgynghorol y Cwricwlwm Newydd – Cafwyd ymateb a thrafodaeth manwl ar y sylwadau a gynigiwyd gan Vaughan ar y papur i bob cwestiwn. Diolchwyd iddo am fod mor drylwyr ac am y cyfle a roddwyd i'r Cyngor i roi barn a sylwadau i'r pwyntiau cadarnhaol a negyddol yn y ddogfen. Codwyd cwestiynau a allai godi am gyrrff allanol sy'n ymweld ag ysgolion. Gofynnwyd i'r Parch Aled Davies i gasglu gwybodaeth am y gwahanol gyrrff/ asiantaethau sy'n ymweld ag ysgolion o safbwynt crefydd megis "Agor y Llyfr." Nodwyd bod y Cwricwlwm newydd yn dweud bod rhaid ymwneud â chymuned lleol sy'n naturiol yn golygu ymweld ag addoldai. Bydd y Cwricwlwm newydd hefyd yn fodd i gyhoeddwy yng Nghymru megis Gwasg Gomer a'r Lolfa a.y.y.b. oherwydd bydd angen llyfrau maes llafur a llyfrau gwaith ar yr ysgolion yn enwedig darpariaeth ar gyfer ysgolion Cymraeg.

Pwynt gweithredu: Parch Aled Davies i gasglu gwybodaeth am y gwahanol gyrrff/ asiantaethau sy'n ymweld ag ysgolion o safbwynt crefydd megis "Agor y Llyfr."

10. Adroddiad yr Enwadau. Ni chafwyd Adroddiad tro yma.

11. Adroddiad y Trysorydd. (Parch Martin Spain)

i. Mantolen: Atodwyd Mantolen cyn y cyfarfod ac fe'i derbyniwyd. Diolchodd Aled Davies am y trosglwyddiad o £5,000 i Gyngor Ysgolion Sul ar ran Adran y Gogledd o CERh a £1,000 o adran y De CERh at ddefnydd Gwobr Medalau Gee. Mae hysbyseb yn y 4 tudalen yn gofyn am ffurflen gais i'w llenwi. Cynhelir dwy Oedfa un yn Berea, Bangor ar 14 Medi a'r llall ar 21 Medi yn y Priordy, Caerfyrddin.

ii. Tâl Aelodaeth: Trafodwyd nad oedd angen codi tâl am 2019 er nad yw wedi codi ers y flwyddyn 2000. Awgrymwyd codiad o 10% yn 2020. Byddai'r enwadau'n cael blwyddyn o rybudd am y codiad. Bydd Martin yn anfon llythyr at yr enwadau i'w rhybuddio.

iii. Tâl aelodaeth Rhyngffydd: Mae'r corff hwn yn fodlon derbyn cyfraniadau ond nid yw'n gwneud cais am dâl aelodaeth. Galluogir hyn i'r gwahanol gyrrff roi cyfraniad yn ôl eu gallu. Awgrymwyd cyfraniad o £25. Mae'r corff yn cyfarfod pedair gwaith y flwyddyn, yn talu costau teithio ac yn gwahodd aelodau i ymuno mewn dathliadau arbennig. Cynigwyd a phasiwyd bod cyfraniad o £25 yn cael ei wneud ac y byddai hyn yn sicrhau ymwybyddiaeth presenoldeb CERhC yn y cyfarfodydd. Diolchwyd i Martin am ei waith.

12. UFA: Nododd y Llywydd mai dyma oedd cyfarfod olaf Parch Sally Thomas yn ein cyfarfod achos bod ei swydd yn dod i ben. Diolchodd y Llywydd iddi hi am ei chyfraniad eciwmenaidd a'i mewnbwn yn nhrafodaethau cyfarfodydd y Cyngor. Dymunwyd yn dda iddi hi yn y dyfodol. Cofiwyd yn dyner iawn am Parch Euros Jones a fu farw wythnos wedi ein cyfarfod mis Tachwedd diwethaf. Bydd bwllch mawr ar ei ôl yn enwedig gyda maes hyfforddi Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Coffa da am wŷr bonheddig a hoffus. Diolchwyd i Catrin Parry am ei gwasanaeth gyda chyfieithu y cyfarfod. Diolchwyd i Helen am baratoi a threfnu lluniaeth ar gyfer y dydd. Gorffennwyd y cyfarfod drwy gyd-adrodd y gras am 3.00.

Dyddiad cyfarfod nesaf: dydd Iau, 14 Tachwedd yng Ngholeg Bedyddwyr De Cymru, Caerdydd